**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1348
Ein cyf/Our ref JMEWL/01431/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

4 Medi 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 15 Awst ynghylch Deiseb P-06-1348 Adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod bod lefelau chwyddiant uchel a chostau ynni yn creu pwysau ariannol ar ein gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, ac rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i wneud ein gorau glas i'w cefnogi. Cadarnhaodd Datganiad yr Hydref fod y DU yn dechrau ar gyfnod o ddirwasgiad hir, i bob golwg, a fydd yn arwain at gostau gwirioneddol a sylweddol i bobl ar draws y DU.

Yn sgil y cynnydd cyflym mewn chwyddiant, mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn werth llai nawr na phan luniwyd ein cynlluniau gwariant. Nid yw ein setliad cyllid gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys y cyllid ychwanegol yn Natganiad yr Hydref, yn ddigon i wneud iawn am y pwysau y mae Cymru yn ei wynebu o ran chwyddiant, heb sôn am yr arian sydd ei angen ar gyfer y blaenoriaethau sydd gennym ar gyfer 2023-24.

Mater i awdurdodau lleol yw penderfynu ar swm y cyllid i'w neilltuo ar gyfer cyllidebau ysgolion. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyllido ysgolion yn uniongyrchol. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth cyn-16 mewn ysgolion yng Nghymru, yn bennaf drwy setliad llywodraeth leol ar ffurf y Grant Cynnal Refeniw. Nid yw'r Grant Cynnal Refeniw wedi'i glustnodi; mae'r cyllid a ddyrennir i bob awdurdod ar gael i'r awdurdod ei wario fel y gwêl yn dda ar ystod o wasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt, gan gynnwys ysgolion. Mae hyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i farnu beth yw'r anghenion a'r amgylchiadau lleol, ac i gyllido ysgolion yn unol â hynny.

Dim ond â chydsyniad yr awdurdod y caiff corff llywodraethu ysgol bennu cyllideb a fydd yn ei gosod mewn diffyg. Os yw ysgol mewn diffyg mawr, dylai awdurdodau lleol weithio'n agos gyda hi i sicrhau ei bod yn ei chael ei hun yn ôl mewn sefyllfa lle mae ganddi swm bychan

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

wrth gefn cyn gynted â phosibl. Dylai fod gan ysgolion sydd mewn diffyg ariannol gynllun adfer cadarn, a dylai'r awdurdod fod wedi cytuno ar hwn, gan ei fonitro.

Er bod ein cyllideb eleni hyd at £900m yn is mewn termau real nag a ddisgwyliwyd i ddechrau, gwnaethom yn siŵr bod awdurdodau lleol, sy'n ariannu ysgolion, yn cael cynnydd o 7.9% yn eu cyllidebau, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, er mwyn adlewyrchu'r flaenoriaeth y mae'r Llywodraeth yn ei rhoi i wasanaethau llywodraeth leol. Mae'r setliad llywodraeth leol blynyddol yn darparu cyfran sylweddol o gyllid cyffredinol awdurdodau lleol. Ar gyfer 2023-24, mae'r setliad yn dosbarthu dros £5.5bn rhwng y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Nid yw'r cyllid hwn wedi'i neilltuo fel y gall awdurdodau wneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu amgylchiadau a blaenoriaethau lleol.

Yn 2023-24, rhagwelir y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwario cyfanswm o £9.206bn. Cyfrifir mai £3.343bn fydd gwariant ysgolion yn 2023-24, cynnydd o 8.0% ers y flwyddyn flaenorol. Cyfrifir mai £7,327 fydd gwariant ysgolion fesul disgybl, sy'n gynnydd o 8.2% neu £554 ers y flwyddyn flaenorol. Gellir rhannu'r gyllideb fesul disgybl yn £5,998 fesul disgybl a ddirprwyir i ysgolion, a £1,328 fesul disgybl a gedwir ar gyfer gwasanaethau ysgolion a ariennir yn ganolog.

Er bod cyllid ysgolion yng Nghymru yn cael ei ddarparu'n bennaf drwy setliad llywodraeth leol, mae cyllideb addysg Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi gwariant ar ysgolion, athrawon a rhaglenni addysg ehangach. Ar gyfer 2023-24 mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, £37.5m i gefnogi ysgolion drwy Raglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau; a thros £120m i ysgolion drwy'r Grant Datblygu Disgyblion.

Dylai awdurdodau lleol, wrth gyflawni eu dyletswydd i sicrhau bod darpariaeth addysg addas ar gael yn eu hardal, weithio gyda'u hysgolion a gynhelir i werthuso effeithiolrwydd eu trefniadau i gyllido ysgolion, wrth gefnogi a chodi lefel cyrhaeddiad dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY. Mae gan ysgolion y cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau eu hawdurdod lleol ynghylch cyllidebau ysgolion drwy ddeialog gyda'r awdurdod, gan gynnwys drwy eu fforwm cyllidebol, sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Mae pob ysgol unigol yn gyfrifol am benderfynu ar y gweithdrefnau a fabwysiedir i ddiwallu anghenion eu holl blant, am arsylwi ar eu cynnydd a'i asesu ac, yn y rhan fwyaf o achosion, am benderfynu ar natur unrhyw gymorth ychwanegol a sefydlir.

Rydym wedi buddsoddi dros £62 miliwn o gyllid grant refeniw mewn ADY rhwng 2020 a 2023, a chynyddwyd y grant gweithredu ar gyfer ADY £5.4m, i £12m, ledled Cymru ar gyfer 2023-24. Diben y grant ychwanegol hwn yw cynyddu'r adnoddau i ysgolion i weithredu'r system ADY ac arwain strategaethau ar lefel ysgol gyfan i sicrhau bod addysg gynhwysol yn ymwreiddio.

Mewn perthynas â chynnal a chadw ysgolion, rydym hefyd yn parhau i fuddsoddi c£300m y flwyddyn yn ystâd ein hysgolion drwy ein Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan ganolbwyntio'n bennaf ar fynd ati'n strategol i adeiladu lleoliadau newydd a/neu adnewyddu ar raddfa fawr. Mae hyn yn cyfrannu tuag at leihau gwaith cynnal a chadw asedau a datgarboneiddio'r ystâd addysg yng Nghymru, yn ogystal â lleihau costau refeniw. Fodd bynnag, rydym yn dal i gydnabod yr ystâd addysg ehangach, ac rydym wedi cyllido gwaith cyfalaf cynnal a chadw â £43m yn 2019-20, £50m yn 2020-21 a £50m arall yn 2021-22. Yn ystod 2022-23 darparwyd dyraniad o £60m (£50m i ysgolion a £10m i golegau) i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach er mwyn cefnogi gwaith effeithlonrwydd ynni mewn perthynas â chyfalaf cynnal a chadw ar draws ysgolion a cholegau yng Nghymru.

Rwy'n cydnabod y pwysau y mae penaethiaid ac uwch staff addysg o dano, ac rwyf wedi bod yn glir iawn bod mynd i'r afael â llwyth gwaith staff ysgolion yn flaenoriaeth, gan gydnabod y cysylltiad annatod rhwng llwyth gwaith a lles. Rwyf wedi ymrwymo i leihau biwrocratiaeth ddiangen i arweinwyr ysgolion, gan gydnabod effaith gadarnhaol hyn ar staff addysgu yn ehangach. Dechreuwyd cynnal cyfarfodydd negodi ynghylch llwyth gwaith ddiwedd Ebrill gyda chyflogwyr, undebau athrawon, Estyn a phartneriaid haen ganol eraill, ac ym mis Gorffennaf gwnes innau ddatganiad am y cynnydd a wnaed. Er gwaethaf y cynnydd sylweddol, mae llawer eto i'w wneud, ac mae gwaith yn parhau i leihau'r llwyth gwaith a lleihau'r baich ar staff addysg, er mwyn sicrhau gwelliannau amlwg i staff addysg ar lefel ysgolion. Ochr yn ochr â ffocws Llywodraeth Cymru ar leihau llwyth gwaith a biwrocratiaeth, rydym hefyd wedi darparu cyllid pellach i gefnogi gwasanaethau lles i staff ysgolion yng Nghymru. Mae rhaglen Llesiant yng Nghymru yn ei thrydedd blwyddyn erbyn hyn, ac mae'n cefnogi'r proffesiwn addysgu drwy ystod o wasanaethau sydd wedi'u teilwra, a ddarperir gan yr elusen addysg Education Support.

Rwy'n cydnabod bod yr argyfwng costau byw yn rhoi ysgolion ac awdurdodau lleol o dan bwysau sylweddol, ac nad oes atebion hawdd i sut i ddatrys y problemau a wynebir. Gwyddom ei bod yn hollbwysig cyfathrebu yn ystod y cyfnod arbennig o anodd hwn, ac rydym yn trafod yn agos gyda llywodraeth leol ynghylch y gyllideb a materion eraill.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg